# Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) yng Nghymru


# Cynhwysiant Cymdeithasol


Gan Dave Adamson, Prifysgol Morgannwg; Sue M.B. Davies, Coleg Prifysgol y Drindod; Anita Pilgrim, Prifysgol Morgannwg; Tracy Thomas, Coleg Prifysgol y Drindod

Mae'r adolygiad hwn o'r Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) yn ystyried tystiolaeth am y ffordd o wella perfformiad addysgol y rhannau o'r boblogaeth sydd o dan yr anfantais fwyaf. Ymhlith y rhain mae'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is neu gymunedau lleiafrifoedd ethnig, y rhai ag anableddau, a hunaniaethau eraill sydd o dan anfantais yn y system addysg ar hyn o bryd.

O'r adolygiad o brosiectau'r TLRP, rydym wedi nodi tair thema allweddol ar gyfer polisi ac arfer yng Nghymru: Model addysg amgylchedd cyfan, Yr ymarferydd cynhwysol, a Yr angen am waith amlasiantaeth.

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion wedi'i Ail-lunio




## Tystiolaeth y TLRP

Llythrennedd Dwyieithog ar gyfer Dysgu mewn Addysg Bellach www.tlrp.org/proj/martin-jones.html
Dysgu Cymunedol mewn Colegau AB www.tlrp.org/proj/phase111/gallacher.htm
Prosiect Dysgu Cydradd: Hwyluso Ymgysylltiad Athrawon ag Arfer Mwy Cynhwysol www.tlrp.org/proj/smbdavies.html
Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol a Thrawsnewid Addysg Gynradd www.tlrp.org/proj/phase111/phase2e.htmlducation
Y Rhaglen Hunaniaeth a Dysgu www.tlrp.org/proj/phase111/ILP.html
Dysgu mewn Gwaith Rhyngasiantaeth ac ar ei Gyfer www.tlrp.org/proj/phase111/daniels.htm
Bywydau Dysgu: Dysgu, Hunaniaeth a Gweithredu yng nghwrs Bywyd www.tlrp.org/proj/phase111/biesta.htm
Pwysigrwydd Hanesyddol, Gwleidyddol ac Addysgol Llais y Dysgwr www.tlrp.org/proj/phase1/phase1esept.html
Deall a Datblygu Arferion Cynhwysol mewn Ysgolion www.tlrp.org/proj/phase1/phase1asept.html

Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru
Welsh Education Research Network
T·L·R·P Teaching & Learning Research Programme
E·S·R·C Economic & Social Research Council
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

| Model addysg amgylchedd cyfan | Syniadau allweddol | Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion |
|---|---|---|
| Y cysylltiad hanfodol rhwng y cartref a'r ysgol | Gall y cwricwlwm a phrosesau asesu greu tensiynau diwylliannol. | Er mwyn nodi natur ganolog y rhyngweithio hwn, gall y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion gael ei ail-lunio. Mae cylch ychwanegol yn dangos dimensiwn critigol y teulu a'r gymuned ochr yn ochr â'r asiantaethau proffesiynol sydd oll yn effeithio ar ganlyniadau addysgol. |
| Yr angen am ffin llai pendant rhwng yr ysgol neu'r coleg a'r gymuned | Dylid ystyried prosesau'r teulu a'r gymuned yn ased i'r ysgol a'r coleg. | Mae'n hanfodol cyflwyno gwybodaeth ac arferion diwylliannol y gymuned i fywyd yr ysgol/coleg fel eu bod yn gwella'r cwricwlwm a ddarperir ac yn ennyn diddordeb y rhai a all fod yn wynebu allgáu. |
| Tensiynau diwylliannol a gaiff eu creu gan y cwricwlwm a gweithdrefnau asesu | Gall polisïau cenedlaethol o ran profi a chodi safonau wrthdaro â'r broses o ddatblygu arferion cynhwysiant lleol. | Mae'n rhaid i addysg sy'n hyrwyddo cynhwysiant ddathlu amrywiaeth; bod â chwricwla eang sy'n meithrin sgiliau bywyd; osgoi gorddibyniaeth ar asesu cyfunol; a darparu rhaglenni addysgol sydd bob amser yn diwallu anghenion y sectorau mewn cymdeithas sydd fwyaf difreintiedig. |

| Yr ymarferydd cynhwysol | Syniadau allweddol | Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (Rhwydweithiau Arfer Proffesiynol) |
|---|---|---|
| Arfer myfyriol | Er mwyn datblygu arferion cynhwysol, mae angen i ymarferwyr fyfyrio ar ragdybiaethau, barn, rheolau a dulliau a gymerir yn ganiataol a'u herio. | Mae'n rhaid i'r broses o fyfyrio ar gynhwysiant cymdeithasol fod yn ffocws allweddol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon ac addysg barhaus athrawon. |
| Ymchwil weithredu | Gall ymchwil weithredu roi dull newid sy'n 'amharu' ar arfer presennol ac yn rhoi lle i fyfyrio a newid arfer proffesiynol. | Mae angen i'r ysgol/coleg ddeall a gwerthfawrogi proses ymchwil weithredu ar gyfer datblygu athrawon, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar y canlyniad neu'r cynnyrch. |
| Prosesau hwyluso a chymorth cadarn | Bydd agweddau allweddol ar gynlluniau ac amgylchedd yr ysgol megis dewis, maint, a threfniadaeth grwpiau athrawon, cysylltiadau ag agendâu ehangach yr ysgol, cyfranogiad disgyblion a hwylusydd grŵp â'r sgiliau priodol, yn galluogi athrawon i berchenogi'r broses a chydweithredu'n effeithiol. | Mae'n rhaid i gymorth yr ysgol/coleg ar gyfer y broses roi sylw i'r ffactorau hyn er mwyn galluogi athrawon i fod yn berchen arni a rhoi 'lle' i gydweithredu ystyrlon ddatblygu.<br><br>Mae'n rhaid i'r gwaith o reoli'r broses hefyd sicrhau ei bod yn rhan annatod o fywyd bob dydd yr ysgol er mwyn cynyddu'r effaith. |

| Cydweithio | Syniadau allweddol | Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (Gweithio gydag Eraill) |
|---|---|---|
| Cydweithredu amlasiantaethol effeithiol rhwng yr athro/athrawes a phob asiantaeth sy'n effeithio ar yrfa dysgwr (e.e. iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf) | Mae cydweithio yn ddyfnach na phartneriaeth ac yn cynnwys asiantaethau yn 'cwlwm-weithio' i wella a datblygu gwybodaeth 'helaeth'. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth well o anghenion y cleient ac yn ehangu ac yn dwysáu gallu proffesiynol. | Byddai pwyslais ar 'gwlwm-weithio' yn annog asiantaethau i ddatblygu ffyrdd newydd o rannu arbenigedd a herio a gwerthuso rheoli ac arferion presennol. Wrth wneud hyn, byddai'n annog arfer mwy effeithiol sy'n canolbwyntio ar y cleient. |
| Newid y ffyrdd y mae ysgolion a cholegau yn rhyngweithio â'r holl asiantaethau a'r dysgwr unigol y mae'n rhaid ei roi yn y canol | Er enghraifft, gall cydweithio rhwng gweithwyr cymdeithasol, seicolegwyr addysg ac aelodau o'r teulu wella gwybodaeth a sgiliau cyfunol ac arwain at ddeilliannau i ddysgwyr. | Mae'n hanfodol canolbwyntio ar y dinesydd er mwyn sicrhau cynhwysiant cymdeithasol ac mae'n cysylltu'r teulu, y gymuned, yr ysgol ac arfer proffesiynol amlasiantaethol mewn ymagwedd unedig ac integredig tuag at gyrhaeddiad addysgol. |